HUGHES, ROWLAND (1811 - 1861), gweinidog Wesleaidd

Enw: Rowland Hughes
Dyddiad geni: 1811
Dyddiad marw: 1861
Priod: Elizabeth Hughes (née Evans)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Wesleaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Griffith Thomas Roberts

Ganwyd 6 Mawrth 1811 yn y Bala, a magwyd ef yn Nolgellau. Wedi ychydig addysg elfennol, prentisiwyd ef yn deiliwr. Yn 1830 aeth yn bregethwr cyflogedig i Ferthyr Tydfil; wedi ei dderbyn i'r weinidogaeth gwasanaethodd gylchdeithiau Caernarfon (1832), Biwmares (1834), Lerpwl (1836), Holywell (1838), Llanasa (1840), Lerpwl (1843), Bangor (1846), Merthyr Tydfil (1849), Crughywel (1852), Manceinion (1854), Lerpwl (1857), a Dinbych (1860). Priododd Elizabeth, merch y Parch. David Evans ' y cyntaf.' Bu farw yn Ninbych dydd Nadolig 1861. Yr oedd yn un o brif bregethwyr Cymru yn ei ddydd. Cyhoeddodd gyfieithiad diwygiedig o esboniad John Wesley ar y *Testament Newydd*, cyfieithiad o bregeth gan Thomas Jackson (*Trefnyddiaeth Wesleyaidd*), ac o lyfr gan R. Young (*Cyfarchiad Caredig i rai newydd ddychwelyd*, 1849). Ysgrifennodd *Diffyniad Wesleyaeth*, 1853, yn erbyn y ' Diwygwyr Wesleaidd ' a flinai gylchdeithiau Deau Cymru. Yr oedd hefyd yn un o olygyddion *Casgliad o Hymnau*, 1845.

Awdur

Y Parchedig Griffith Thomas Roberts, (1887 - 1977)

Ffynonellau

Griffith Jones, *Byr-gofiant a galareb am y diweddar Barch. Rowland Hughes, gweinidog yr efengyl yn nghyfundeb y trefnyddion Wesleyaidd* (Bangor 1862), 1862

Rowland Hughes, *Pregethau, darlithiau, a thraethodau wedi ei olygu, ynghyda darlith ar ei fywyd a'i athrylith* (Caernarfon 1877) (gol. J. H. Evans)

J. Jones, *Y Bywgraffydd Wesleyaidd yn cynwys bras-hanes am un a thriugain o weinidogion Wesleyaidd Cymreig yn nghyda 35 o weinidogion a gwyr lleyg Saesonig* (Machynlleth 1866), 125-9

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, 1863, 133-8, 177-9, 221-5, 265-8, 309-16

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734378

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu